*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 143(3), (4)(b) ac (c) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

---

# 2024 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chofrestru darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn").

Mae Rhan 1 yn cynnwys y darpariaethau dehongli a'r darpariaethau cyffredinol.

Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r categorïau cofrestru. Rhaid i'r gofrestr a sefydlir ac a gynhelir gan y Comisiwn gael categori cofrestru craidd addysg uwch a chategori cofrestru amgen addysg uwch. Y categori cofrestru craidd addysg uwch yw'r categori cofrestru terfyn ffioedd at ddibenion adran 32(2)(b) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("y Ddeddf"). Ni chaiff y Comisiwn gofrestru darparwr addysg drydyddol mewn mwy nag un categori o'r gofrestr ar yr un pryd.

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chymhwystra i gael cyllid. Mae darparwyr addysg drydyddol sydd wedi eu cofrestru yn y categori cofrestru craidd addysg uwch yn ddarparwyr penodedig at ddibenion adrannau 88(3) a 105(4) o'r Ddeddf ac maent yn gymwys i gael cymorth ariannol ar gyfer addysg uwch, ymchwil neu arloesi.

Mae Rhan 4 yn nodi amodau cofrestru cychwynnol pellach ac amodau cofrestru parhaus mandadol pellach.

DRAFFT

Mae Rhan 5 yn rhestru'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yng nghofnod darparwr addysg drydyddol yn y gofrestr.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

DRAFFT

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 143(3), (4)(b) ac (c) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
D R A F F T   C Y M R U

---

# 2024 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

DRAFFT

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 25(2), 25(3), 25(5), 25(8), 27(6), 27(7)(b)(i), 27(7)(b)(ii), 32(2)(b), 34, 88(3), 105(4) a 143(2)(a) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru, ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad, yn unol ag adran 143(3), (4)(b) ac (c) o'r Ddeddf honno(**2**).

## RHAN 1

## ENWI, DOD I RYM A DEHONGLI

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024.

---

(**1**) 2022 dsc 1.
(**2**) Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar [i'w gadarnhau].

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "addysg drydyddol" ("*tertiary education*") yw addysg uwch, addysg bellach neu hyfforddiant;

ystyr "addysg uwch" ("*higher education*") yw addysg a ddarperir drwy gyfrwng cwrs o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**);

mae "asesiad" ("*assessment*") yn cynnwys arholiad a phrawf;

ystyr "categori amgen addysg uwch" ("*higher education alternative category*") yw'r categori cofrestru a nodir yn rheoliad 3(b);

ystyr "categori craidd addysg uwch" ("*higher education core category*") yw'r categori cofrestru a nodir yn rheoliad 3(a);

ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a sefydlir gan adran 1 o'r Ddeddf;

mae "corff llywodraethu" ("*governing body*") i'w ddehongli fel a ganlyn—

(a) mewn perthynas â darparwr hyfforddiant na fyddai, oni bai am y diffiniad o "sefydliad" yn y rheoliad hwn, yn cael ei ystyried yn sefydliad, ei ystyr yw unrhyw bersonau sy'n gyfrifol am reoli'r darparwr;

(b) mewn perthynas ag ysgol, ei ystyr yw perchennog yr ysgol o fewn yr ystyr a roddir i "proprietor" gan adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996(**2**);

(c) mewn perthynas â darparwr a ddynodir o dan adran 83 (dynodi darparwyr addysg drydyddol eraill) o'r Ddeddf, ei ystyr yw unrhyw bersonau sy'n gyfrifol am reoli'r darparwr;

(d) mewn perthynas ag unrhyw sefydliad arall, mae iddo'r ystyr a roddir i "governing body" gan adran 90(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**3**), ond yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 90(2) o'r Ddeddf honno;

---

(**1**) 1988 p. 40.

(**2**) 1996 p. 56. Diwygiwyd y diffiniad o "proprietor" yn adran 579(1) gan baragraff 9(17)(c) o Atodlen 13 i Ddeddf Addysg 2011 (p. 21); paragraff 183(a)(iii) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31); a rheoliad 4 o O.S. 2005/2913.

(**3**) 1992 p. 13. Diwygiwyd paragraff (a) o'r diffiniad o "governing body" yn adran 90(1) gan baragraffau 1, 12(1) a (2) o Atodlen 8 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22).



DRAFFT

ystyr "darparwr addysg drydyddol yng Nghymru" ("*tertiary education provider in Wales*") yw sefydliad sy'n darparu addysg drydyddol, gan gynnwys addysg drydyddol a ddarperir ar ei ran, y cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru;

ystyr "darparwr cofrestredig" ("*registered provider*") yw darparwr addysg drydyddol sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr; ac mae cyfeiriadau at "cofrestru" ("*registration*") i'w darllen yn unol â hynny;

ystyr "darparwr hyfforddiant" ("*training provider*") yw person sy'n darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau o weithlu'r ysgol (o fewn yr ystyr a roddir i "member of the school workforce" gan adran 100 o Ddeddf Addysg 2005(**1**));

ystyr "dyfarniad a addysgir" ("*taught award*") yw unrhyw radd gan gynnwys gradd sylfaen, diploma, tystysgrif neu ddyfarniad neu anrhydedd academaidd arall a roddir i bersonau sy'n cwblhau cwrs astudio priodol ac sy'n bodloni asesiad priodol;

ystyr "dyfarniad ymchwil" ("*research award*") yw unrhyw radd, diploma, tystysgrif neu ddyfarniad neu anrhydedd academaidd arall a roddir i bersonau sy'n cwblhau rhaglen briodol o ymchwil dan oruchwyliaeth ac sy'n bodloni asesiad priodol;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022;

ystyr "y gofrestr" ("*the register*") yw'r gofrestr a sefydlir ac a gynhelir gan y Comisiwn o dan adran 25(1) o'r Ddeddf;

mae "sefydliad" ("*institution*") yn cynnwys unrhyw ddarparwr hyfforddiant (pa un a fyddai'r darparwr hyfforddiant fel arall yn cael ei ystyried yn sefydliad ai peidio);

ystyr "trefniadau breinio" ("*franchise arrangements*") yw trefniadau rhwng darparwr cofrestredig a darparwr addysg arall y mae'r darparwr cofrestredig yn darparu addysg uwch i fyfyriwr odanynt ar ran y darparwr arall, neu y mae'n awdurdodi'r darparwr arall i ddarparu addysg uwch i fyfyriwr odanynt ar ei ran;

ystyr "trefniadau dilysu" ("*validation arrangements*") yw trefniadau rhwng y darparwr cofrestredig a darparwr addysg arall y mae'r darparwr cofrestredig yn dyfarnu cymhwyster odanynt i fyfyriwr yn y darparwr arall neu'n

(**1**) 2005 p. 18. Diwygiwyd y diffiniad o "the school workforce" gan adran 15(4) a (9)(b) o Ddeddf Addysg 2011 (p. 21). Gweler hefyd adran 15(9)(d) o Ddeddf Addysg 2011 a wnaeth ddarpariaeth bellach mewn cysylltiad ag ystyr "the school workforce".

DRAFT

awdurdodi’r darparwr arall i ddyfarnu cymhwyster odanynt ar ei ran.

## RHAN 2

## CATEGORÏAU COFRESTRU

**Categorïau cofrestru**

**3.** At ddibenion adran 25(2) o’r Ddeddf, rhaid i’r Comisiwn wneud darpariaeth yn y gofrestr ar gyfer y categorïau cofrestru a ganlyn sy’n ymwneud â darparu addysg uwch—

(a) categori craidd addysg uwch, a

(b) categori amgen addysg uwch.

**Cofrestru mewn mwy nag un categori**

**4.** Ni chaiff y Comisiwn gofrestru darparwr addysg drydyddol mewn mwy nag un categori o’r gofrestr ar yr un pryd.

**Y categori terfyn ffioedd**

**5.** Y categori terfyn ffioedd at ddibenion adran 32(2)(b) o’r Ddeddf yw’r categori craidd addysg uwch.

DRAFFT

## RHAN 3

## CYMHWYSTRA I GAEL CYLLID

**Cymorth ariannol ar gyfer addysg uwch**

**6.** Mae darparwr cofrestredig sydd wedi ei gofrestru yn y categori craidd addysg uwch yn ddarparwr penodedig at ddibenion adran 88(3) o’r Ddeddf.

**Cymorth ariannol ar gyfer ymchwil neu arloesi**

**7.** Mae darparwr cofrestredig sydd wedi ei gofrestru yn y categori craidd addysg uwch yn ddarparwr penodedig at ddibenion adran 105(4) o’r Ddeddf.

## RHAN 4

## AMODAU COFRESTRU

**Amodau cofrestru cychwynnol pellach ar gyfer y categori craidd addysg uwch**

**8.** Mae’n amod cofrestru cychwynnol yn y categori craidd addysg uwch fod y Comisiwn wedi ei fodloni—

(a) bod y darparwr addysg drydyddol sy’n gwneud cais yn elusen, a

(b) o ran yr wybodaeth y mae’r darparwr addysg drydyddol sy’n gwneud cais yn ei darparu i ddarpar fyfyrwyr ynghylch y darparwr, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei gontractau â myfyrwyr.

**Amodau cofrestru cychwynnol pellach ar gyfer y categori amgen addysg uwch**

**9.** Mae’n amod cofrestru cychwynnol yn y categori amgen addysg uwch bod y Comisiwn wedi ei fodloni o ran yr wybodaeth y mae’r darparwr addysg drydyddol sy’n gwneud cais yn ei darparu i ddarpar fyfyrwyr ynghylch y darparwr, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei gontractau â myfyrwyr.

**Amodau cofrestru parhaus mandadol pellach ar gyfer y categori craidd addysg uwch**

**10.** Rhaid i’r Comisiwn sicrhau bod amodau cofrestru parhaus pob darparwr addysg drydyddol sydd wedi ei gofrestru yn y categori craidd addysg uwch yn cynnwys—

(a) amod sy’n ymwneud â statws parhaus y darparwr fel elusen,

(b) amod sy’n ymwneud â’r wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr am y darparwr, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei gontractau â myfyrwyr, ac

(c) amod sy’n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu’r darparwr hysbysu’r Comisiwn am unrhyw newid y mae’n dod yn ymwybodol ohono sy’n effeithio ar statws y darparwr fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru.

**Amodau cofrestru parhaus mandadol pellach ar gyfer y categori amgen addysg uwch**

**11.** Rhaid i’r Comisiwn sicrhau bod amodau cofrestru parhaus pob darparwr addysg drydyddol sydd wedi ei gofrestru yn y categori amgen addysg uwch yn cynnwys—

(a) amod sy’n ymwneud â’r wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr ynghylch y darparwr, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei gontractau â myfyrwyr, a

(b) amod sy’n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu’r darparwr hysbysu’r Comisiwn am unrhyw newid y mae’n dod yn ymwybodol ohono sy’n effeithio ar statws y darparwr fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru.

DRAFFT

# RHAN 5

## YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS YN Y GOFRESTR

**Yr wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yng nghofnod darparwr addysg drydyddol yn y gofrestr**

**12.** At ddibenion adran 25(8) o'r Ddeddf, rhaid i gofnod darparwr addysg drydyddol yn y gofrestr gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) enw'r darparwr, gan gynnwys unrhyw enwau masnachu neu unrhyw enwau a roddwyd drwy neu yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu unrhyw Siarter Frenhinol,

(b) pan fo enw'r darparwr yn cynnwys y gair "prifysgol", pa un a gafodd y defnydd o'r enw hwnnw—

(i) ei awdurdodi drwy Siarter Frenhinol, ac os felly, pryd,

(ii) cydsyniad y Cyfrin Gyngor o dan adran 77(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**), ac os felly, pryd,

(iii) ei gymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor at ddibenion adran 39(1)(b) neu (2) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**), ac os felly, pryd, neu

(iv) ei awdurdodi drwy neu yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth arall o Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig, ac os felly, pryd,

(c) cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn y gellir eu defnyddio i gysylltu â'r darparwr,

(d) cyfeiriad prif fan busnes y darparwr, neu gyfeiriad sy'n addas fel arall ar gyfer cyflwyno dogfennau i'r darparwr,

(e) cyfeiriad y brif wefan a gynhelir gan, neu ar ran, y darparwr,

(f) y math o addysg drydyddol a ddarperir gan, neu ar ran, y darparwr,

(g) y categori y mae'r darparwr wedi ei gofrestru ynddo a'r dyddiad y cafodd y darparwr ei gofrestru yn y categori hwnnw,

(h) pa un a yw amodau cofrestru parhaus y darparwr yn cynnwys amod terfyn ffioedd ac, os felly, manylion sut i gael gafael ar

DRAFT

(**1**) 1992 p. 13. Diwygiwyd adran 77(1) gan adran 56(1) a (3) o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29).

(**2**) 1998 p. 30. Diwygiwyd adran 39(1) gan adran 57(1) a (3) o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29). Diwygiwyd adran 39(2) gan adran 57(1) a (4) o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017.

ddatganiad terfyn ffioedd y darparwr fel y'i cymeradwywyd gan y Comisiwn o dan adran 47 o'r Ddeddf,

(i) pa un a yw'r darparwr yn elusen ac, os felly—

(i) ei rif cofrestru elusen, neu

(ii) os nad yw'r darparwr wedi ei gofrestru â rheoleiddiwr elusennau, y rheswm pam nad yw'n ofynnol iddo gofrestru â rheoleiddiwr elusennau,

(j) pa un a yw'r darparwr yn gwmni, a'i rif cofrestru cwmni (pan fo'n gymwys),

(k) pa un a gafodd y darparwr ei awdurdodi i roi dyfarniadau a addysgir neu ddyfarniadau ymchwil neu'r ddau ac, os felly, pryd,—

(i) drwy Siarter Frenhinol,

(ii) drwy orchymyn gan y Cyfrin Gyngor o dan adran 76(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**), neu

(iii) drwy neu o dan unrhyw ddarpariaeth o Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig,

(l) os yw'r darparwr wedi ei awdurdodi i roi dyfarniadau a addysgir neu ddyfarniadau ymchwil neu'r ddau gan awdurdodiad y cyfeirir ato ym mharagraff (k) uchod, disgrifiad o'r dyfarniadau a addysgir neu'r dyfarniadau ymchwil y mae wedi ei awdurdodi i'w rhoi,

(m) pa un a yw'r darparwr wedi ymrwymo i drefniadau dilysu, ac

(n) pa un a yw'r darparwr wedi ymrwymo i drefniadau breinio.

*Enw*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) 1992 p. 13. Diwygiwyd adran 76(1) gan adran 19(1) a (2) o Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddiant 2007 (p. 25); a chan adrannau 259(1) a 266 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22) a Rhan 11 o Atodlen 16 iddi.



DRAFT